Os yw'r pŵer yn mynd i ffwrdd am amser hir

Peidiwch â chynhyrfu. Dilynwch y camau hyn yn eu trefn.

1 · Yn syth

- Estynnwch fflachlamp. Peidiwch â chynnau canhwyllau.
- Gwiriwch y blwch ffiwsiau, yna gwiriwch a oes gan y cymdogion bŵer.
- Diffoddwch boptai, gwresogyddion ac unrhyw beth poeth.
- Ffoniwch 105 (am ddim) i roi gwybod.

2 · Yn yr awr gyntaf

- Trowch y radio batri ymlaen i gael newyddion swyddogol.
- Arbedwch fatri'r ffôn. Anfonwch neges destun, peidiwch â ffonio.
- Llenwch boteli, sosbenni a'r bath â dŵr.
- Cadwch yr oergell a'r rhewgell ar gau.
- Galwch heibio'r cymdogion.

3 · Ar ôl hynny

- Arhoswch gartref oni bai bod rhywun yn dweud wrthych chi am adael.
- Arhoswch mewn un ystafell i gadw'n gynnes. Gwisgwch sawl haen.
- Bwytewch fwyd yr oergell yn gyntaf, yna'r rhewgell, yna'r tuniau.
- Os oes rhywun ar goll, ewch i'r man cyfarfod.
- Peidiwch â chredu sïon. Ymddiriedwch yn y radio a'r gwasanaethau brys.

Peidiwch byth

- Peidiwch byth â defnyddio barbeciw, stof wersylla na generadur dan do.
- Peidiwch byth â gadael cannwyll yn llosgi ar ei phen ei hun.
- Peidiwch byth â rhoi manylion banc nac arian i gael eich pŵer yn ôl.

Rhifau

999
Argyfwng: tân, heddlu, ambiwlans. Dim ond pan fydd bywyd mewn perygl.

105
Toriad pŵer. Am ddim. Rhoi gwybod am doriad pŵer neu gael gwybodaeth (Cymru, Lloegr a'r Alban).

03457 643 643
Toriad pŵer yng Ngogledd Iwerddon.

111
Help meddygol gan y GIG (NHS) sy'n fater brys ond nid yn argyfwng.

101
Heddlu, pan nad yw'n argyfwng.

0800 111 999
Argyfwng nwy. Am ddim. Ffoniwch os ydych chi'n arogli nwy.

Cynllun ein cartref

Llenwch hwn gyda'ch gilydd.

Pwy sy'n byw yma

Ble rydyn ni'n cwrdd yn agos at adref

Ble rydyn ni'n cwrdd os na allwn ni gyrraedd adref

Perthynas neu ffrind ymhell i ffwrdd y gall pob un ohonon ni gysylltu â nhw (enw a rhif)

Cymydog sy'n gallu helpu, neu sydd angen ein help ni

Rhifau ffôn y teulu

Meddyg a fferyllfa

Ein cwmni trydan a'n rhif cyfrif

Our power cut rota letter (on the electricity bill)

Meddyginiaethau a dosau

Gorsaf radio ac amledd ar gyfer newyddion

Ble mae'r fflachlamp, y radio a'r batris yn cael eu cadw

Ble mae diffodd y dŵr (stopfalf)

Ble mae'r blwch ffiwsiau

Unrhyw beth arall

Ein pecyn — ticiwch pan fydd yn barod

- [ ] Dŵr ar gyfer 3 diwrnod
- [ ] Bwyd sydd ddim angen ei goginio
- [ ] Agorwr tuniau
- [ ] Fflachlampau a batris
- [ ] Radio batri neu radio weindio
- [ ] Banc pŵer wedi'i wefru
- [ ] Arian parod mewn papurau bach
- [ ] Meddyginiaethau am wythnos
- [ ] Pecyn cymorth cyntaf
- [ ] Dillad cynnes a blancedi
- [ ] Rhestr bapur o rifau ffôn
- [ ] Pethau i'r babi ac i'r anifeiliaid anwes